CYMDEITHAS GWAITH MAES

RHIFYN 34
MAI 2007

Bannau Brycheiniog
gan Swyddogion Addysg Bannau Brycheiniog

Eleni rydym yn dathlu 50 mlynedd ers i'r ardal gael ei dynodi yn Barc Cenedlaethol.

Yn yr hanner canrif yma, mae'r dynodiad wedi dod a llawer o fanteision i'r ardal, yn cynnwys gwaith cadwraethol a gwelliannau i'r amgylchedd a gweithio i hybu mwynhad o'r ardal arbennig yma.

Mae'r Parc Cenedlaethol wedi trefnu sawl gweithgaredd yn ystod y flwyddyn i ddathlu'r trothwy arbennig yma ac i godi proffil y Parc.

Ein neges yw bod y Parc yn amgylchedd deinamig sydd yn newid yn gyson. Rydym am ddathlu'r dynodiad trwy feithrin trafodaeth, ac ystyried beth mae'r dynodiad wedi ei olygu dros yr hanner canrif i gymunedau a'r tirwedd. Bydd hyn yn gymorth i godi proffil o'r sialensau fu yn wynebu'r Parc Cenedlaethol yn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol.

cliciwch yma i agor map fwy

Bydd y Gwasanaeth Addysg yn gweithio gydag ysgolion lleol yn eu canolfannau. Cynhaliwyd cyrsiau am ddim i ysgolion ym mis Mawrth ym Mharc Gwledig Craig-y-nos, a bydd gweithgaredd tebyg yn cael eu cynnal yn ein Canolfan Ymwelwyr ger Libanus rhwng y 18fed a'r 22ain o Fehefin ac yng Nghanolfan Astudio'r Parc Cenedlaethol ger Dan y Wenallt rhwng y 19eg a'r 23ain o Dachwedd. Pwrpas y cyrsiau fydd i godi ymwybyddiaeth o'r dynodiad, ac i ysgogi meddwl am y dyfodol. Bydd pob ysgol yn mwynhau profiad o'r Parc Cenedlaethol wrth astudio nifer o

nodweddion naturiol a dynol, a thrafod effaith ffermio, twristiaeth, mwyngloddio, coedwigaeth a phobl gynnar ar y tir.

Yn y prynhawn bydd disgyblion yn gwneud gweithgaredd ac yn gweithio mewn timau i feddwl am gynaladwyaeth y Parc Cenedlaethol a'i ddyfodol.

Bydd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog hefyd yn cynnal Picnic yn y Parc ar y 6ed o Fehefin yng nghanolfan ymwelwyr y Parc Cenedlaethol, ac yn ystod adloniant y nos bydd tair coelcerth yn cael eu cynnau ar fynyddoedd yn y Dwyrain, Canol a Gorllewin.

Os hoffech fwy o fanylion am Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, yna mae llawer o ddeunydd ar ein gwefan www.breconbeacons.org, neu gallwch gysylltu gyda'r Gwasanaeth Addysg ar 01874 620445